# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Deintyddfa Rumney Hill

20 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**Ebost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN digidol 978 1 4734 2668-9
© Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys

1. Introduction ........ 2

2. Methodology ........ 2

3. Context ........ 4

4. Summary ........ 5

5. Findings ........ 7

Patient Experience ........ 7

Delivery of Standards for Health Services in Wales ........ 9

Management and Leadership ........ 13

Quality of Environment ........ 17

6. Next Steps ........ 19

Appendix A ........ 20

## Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Rumney Hill, 776 Heol Casnewydd, Tredelerch, Caerdydd, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 20 Tachwedd 2014.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

---

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar y 1[af] o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn cael eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Cyd-destun

Mae Deintyddfa Rumney Hill yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG ac i gleifion preifat yn ardal Tredelerch yng Nghaerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un hylenydd deintyddol, chwe nyrs ddeintyddol, un derbynnydd a rheolwr practis. Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth y GIG a phreifat
- Deintyddiaeth mewn Argyfwng
- Hylendid deintyddol
- Dannedd gosod
- Argaenau
- Gwynnu dannedd a chael gwared â staeniau

## Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Deintyddfa Rumney Hill yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Roeddem o'r farn bod y ddarpariaeth o ofal a thriniaeth ddeintyddol yn cael ei chefnogi gan ystod o systemau a phrosesau rheoli a oedd wedi eu hen sefydlu. Roedd trefniadau o'r fath yn sicrhau bod gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu darparu mewn modd diogel ac amserol. Dywedwyd wrthym hefyd fod salwch, absenoldeb a throsiant y staff yn isel iawn; roedd y rhan fwyaf o aelodau'r tîm wedi gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn debygol o gael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Mae Deintyddfa Rumney Hill yn bractis/deintyddfa sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso, sy'n dilyn hyfforddiant blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl graddio o brifysgol), dan oruchwyliaeth hyfforddwr a bennwyd.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae’r pwyntiau canlynol yn ymwneud â’r hyn a ddywedodd pobl wrthym a’r hyn a ganfuom yn yr arolygiad hwn:

- Nododd cleifion eu bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwelwyd hefyd bod cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch
- Edrychwyd ar sampl o gofnodion 15 o gleifion a chynhaliwyd trafodaethau â'r deintyddion yn y ddeintyddfa. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau'r driniaeth. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a’u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion
- Mae'r ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan reolwr practis a phrif ddeintydd profiadol. Roedd y practis wedi sefydlu systemau rheoli a phrosesau priodol i sicrhau diogelwch cleifion.
- Roedd y ddeintyddfa'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda, gan ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelwyd hefyd bod y safle'n lân ac yn hylan drwyddo draw

Canfuwyd tair agwedd ar y gwasanaeth yr oedd angen eu gwella. Sef:

- Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod hanesion meddygol newydd a diweddaraf y cleifion bob amser yn cael eu llofnodi gan y deintydd a'r claf
- Hysbyswyd y ddeintyddfa bod angen dangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion â chlefyd periodontol (deintgig) yn derbyn gofal a thriniaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol
- Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa sicrhau bod manylion y broses gwyno yn cael eu harddangos mewn lle mwy amlwg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u gofal neu driniaeth ddeintyddol

## Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Nododd cleifion eu bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwelwyd hefyd bod cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch.**

Cwblhaodd 15 o gleifion holiaduron cleifion AGIC ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd y cyfnod o amser yr oedd yr unigolion hynny wedi ymweld â'r ddeintyddfa yn rheolaidd yn amrywio o dair blynedd i dros 30 o flynyddoedd. Nododd pob claf eu bod yn cael croeso mawr gan y tîm deintyddol. Cafwyd sylw ychwanegol gan un claf ynglŷn â'r modd y cânt eu cyfarch fel arfer: *'Gan wenu a bod yn groesawgar. Bob amser yn gofyn sut ydyn ni*'. Siaradwyd ag un unigolyn nad oedd wedi ymweld â deintyddfa ers peth amser a dywedodd fod y staff wedi tawelu ei feddwl, a helpu iddo deimlo'n gartrefol.

O edrych ar bedwar ar ddeg o holiaduron AGIC a gwblhawyd, gwelwyd bod y cleifion o'r farn eu bod yn cael digon o wybodaeth am opsiynau eu triniaeth, fodd bynnag, ymatebodd un unigolyn â'r gair '*weithiau'*. Cadarnhaodd y sgyrsiau â'r prif ddeintydd a'r tri deintydd arall y trafodir opsiynau triniaethau gyda'r cleifion yn ystod ymgynghoriadau. O archwilio sampl o 15 cofnod cleifion, gwelwyd hefyd y caiff cofnodion deintyddol eu diweddaru ar ôl pob ymweliad, gan nodi manylion y triniaethau a roddwyd i'r cleifion, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Roedd y practis yn gweithredu system apwyntiadau oedd mor hyblyg â phosibl. Er enghraifft, dywedwyd y gallai cleifion drefnu apwyntiadau o flaen llaw. Amlygodd sgyrsiau gyda'r tîm deintyddol yr ymdrechion a wneir i roi apwyntiad i bobl ar yr un diwrnod a roddir eu problemau neu boen deintyddol gerbron. Gwelwyd hefyd agwedd gymwynasgar, cyfeillgar a phroffesiynol y tîm deintyddol tuag at y cleifion ar y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Nododd pob claf a gwblhaodd un o'n holiaduron nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Nododd y cleifion hefyd eu bod yn ymwybodol o sut i gael mynediad i'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Nododd saith claf yn yr holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i godi pryderon neu wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a geir. Fodd bynnag, nododd yr wyth claf arall nad oeddent yn ymwybodol o'r broses y maent angen ei dilyn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â'r mater hwnnw yn yr adran 'Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' o'r adroddiad' hwn. Rhoddodd y cleifion eu caniatâd inni gynnwys eu sylwadau ychwanegol ynglŷn â'u bodlonrwydd a'u profiadau yn ymwneud â Deintyddfa Rumney Hill yn yr adroddiad hwn:

'*Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon iawn â'r driniaeth'*

*'Mae'r ddeintyddfa wedi bod yn groesawus a chymwynasgar iawn bob amser . Mae'r triniaethau wedi bod yn dda iawn a phroffesiynol bob amser'*

*'Byddai cynnal trafodaethau gyda'r cleifion ynglŷn â'r gost cyn cymryd unrhyw gamau arfaethedig o bosib yn helpu'*

*'Bum yn glaf yn y ddeintyddfa hon ers 1981. Cefais driniaethau gwych ac rydw i'n gwbl fodlon ar y gwasanaethau'.*

*Ac*

*'Ar ôl ymweld â'r ddeintyddfa hon ers peth amser, rydw i wedi cael fy siâr deg o broblemau, rhai ohonynt heb ymwneud â'm dannedd, ... fe wnaeth y staff lawer mwy na'u swyddogaeth.* Rydw i'n eu gwerthfawrogi gymaint*'.*

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym hefyd fod y practis fel arfer yn cwblhau arolwg blynyddol o farn y cleifion fel ffordd o nodi unrhyw elfen o ddarpariaeth y gwasanaeth sydd angen ei gwella.

## *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Edrychwyd ar sampl o gofnodion 15 o gleifion a chynhaliwyd trafodaethau â'r deintyddion yn y ddeintyddfa. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau'r driniaeth. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

O drafod â'r deintyddion yn y ddeintyddfa, gwelwyd eu bod yn rhoi pwyslais ar gynllunio a darparu gofal a thriniaeth cleifion yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy archwilio hanes meddygol y cleifion yn ystod pob ymweliad er mwyn sicrhau bod newidiadau a risgiau posibl i'w iechyd yn cael eu canfod a'u cofnodi. Fodd bynnag, o archwilio sampl o gofnodion hanes meddygol 15 o gleifion, gwelwyd nad oedd pump ohonynt wedi eu llofnodi gan y deintydd dan sylw. Gwelwyd hefyd nad oedd tri chlaf wedi llofnodi eu hanes meddygol priodol diweddaraf.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod hanesion meddygol newydd a diweddaraf bob amser yn cael eu llofnodi gan y deintydd a'r claf.***

Edrychwyd ar sampl o 15 cofnod deintyddol (h.y. pum cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad). Roedd y cofnodion a ddewiswyd ar gyfer pob deintydd yn ymwneud â chyfuniad o gleifion a oedd wedi derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG Band 3 (sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau mwy cymhleth), triniaeth a roddwyd i blentyn, ymgynghoriad brys ac archwiliad deintyddol wedi'i gwblhau. O ganlyniad, gwelwyd bod y cofnodion ar ofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a manwl am gynllunio triniaethau. Golygai hyn y gallem weld yn glir pam y rhoddwyd y triniaethau i gleifion. Yn ogystal, gwelwyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE[2]) wedi eu

---

[2]Offer sgrinio deintyddol a ddefnyddir i adnabod clefyd y deintgig yn gynnar yw'r Archwiliadau Periodontol Sylfaenol.Gall deintyddion roi cyngor i chi ynglŷn â sut i frwsio'ch dannedd a'r ffordd orau o ddefnyddio edau dannedd.
http://www.bdasmile.org/adults/adults.cfm?contentid=1097&contentparentid=1034

cofnodi o ran ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag oedolion, fel sy'n ofynnol dan y canllawiau clinigol.

Fodd bynnag, o edrych ar gofnodion dau glaf, gwelwyd bod eu sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol wedi arwain at ddarparu gwasanaeth tynnu cen sylfaenol [3] yn hytrach na phelydr-x, tynnu cen yn drylwyr a siartio periodontol llawn. [4] O drafod â dau aelod o'r tîm deintyddol, gwelwyd bod y ddeintyddfa'n aml yn adolygu cleifion yn dilyn sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (a thynnu cen), ac yna byddent yn mynd ati i wneud ymchwiliad a thriniaeth ychwanegol, pe byddai hynny'n angenrheidiol.  Fodd bynnag, cynghorwyd y practis i adolygu'r trefniadau yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol.

***Argymhelliad***

***Hysbyswyd y ddeintyddfa bod angen dangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion â chlefyd periodontol yn derbyn gofal a thriniaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol presennol***

Roedd y ddeintyddfa'n dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[5] o ran yr amserlenni a argymhellir ar gyfer ymweliadau ail-alw deintyddol.  Roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pryd y dylent dderbyn eu hapwyntiad nesaf.

---

[3]Pan fyddwch yn mynd am archwiliad, mae'n bosib y bydd eich deintydd yn 'tynnu cen a sgleinio'. Yn y bôn, glanhau eich ceg yn drylwyr yw hyn, pan fo'r deintydd neu'r hylenydd deintyddol yn defnyddio teclyn arbennig i gael gwared ag ymgasgliad caled o dartar (Calcwlws) ac wedyn yn sgleinio'r dannedd yn drylwyr polish.http://www.bdasmile.org/search/index.cfm

[4]Mae'r geg wedi'i rhannu'n chwe rhan ar gyfer dibenion Archwiliadau Periodontol Sylfaenol ac er mwyn pennu pa un a yw clefyd y deintgig yn bresennol ai peidio.(Uchaf ac isaf:blaen, cefn de a chefn chwith.) Rhoddir stiliwr di-fin yn ofalus a phwyllog yn y lle rhwng pob dant a deintgig ar 4-6 phwynt o amgylch pob dant, a nodir y boced ddyfnaf yn y rhan honno o'r geg a ph'un a yw'r deintgig yn gwaedu wrth ei gyffwrdd ychydig.

[5]Mae canllawiau clinigol deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cynorthwyo deintyddion i benderfynu pa mor aml y dylid ail-alw cleifion rhwng adolygiadau iechyd geneuol sy'n briodol i anghenion unigol cleifion.Mae'r canllawiau'n berthnasol i gleifion o bob oedran sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yn Lloegr a Chymru.

Wrth archwilio cynnwys sampl o gofnodion 15 o gleifion, gwelwyd bod y ddeintyddfa'n defnyddio templedi/cofnodion penodol ar adegau pan fo unigolion wedi eu cyfeirio at ysbyty am driniaeth. Gwelwyd bod un cofnod o'r fath yn y sampl a ddewiswyd yn gynhwysfawr, ac felly roedd yn ganllaw defnyddiol iawn i ddeintyddion proffesiynol mewn ysbytai.

Cedwir cofnodion cleifion yn y ddeintyddfa ar gronfa ddata gyfrifiadurol. Roedd yr unig wybodaeth a gadwyd ar bapur yn ymwneud â hanesion meddygol newydd neu ddiweddaredig.

Gwelwyd bod y trefniadau a weithredir o ran defnyddio cyfarpar pelydr-x yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau ar hyfforddiant pelydr-x ar gyfer aelodau'r staff. Gwelwyd bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn fanwl a chlir iawn o ran defnyddio cyfarpar pelydr-x. Roedd yn amlwg hefyd bod y deintyddion wedi cofnodi digon o wybodaeth i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-x deintyddol penodol. Yn ogystal, roedd system sicrhau ansawdd priodol wedi'i sefydlu yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau bod ansawdd y lluniau pelydr-x o gleifion yn cael eu graddoli a'u cofnodi. Fodd bynnag, gellid gwella'r broses ymhellach trwy gyflwyno dadansoddiad o'r cofnodion a gellid eu defnyddio fel dull dysgu ychwanegol ar gyfer y staff deintyddol.

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys; roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol a rhoddwyd disgrifiad i ni o sut y derbyniodd claf driniaeth cymorth cyntaf yn llwyddiannus yn y ddeintyddfa.

Gwelwyd y cedwir cyffuriau brys yn y practis yn ddiogel ac roedd trefniadau priodol wedi eu sefydlu i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn ddi-oed. Yn ogystal, cadarnhaodd y prif ddeintydd fod aelod o staff yn gweithio yn y feddygfa sydd wedi'i hyfforddi i ddefnyddio cymorth cyntaf ar gael bob amser. Gwelwyd bod un cyffur brys penodol wedi'i gadw yn yr oergell yn y ddeintyddfa yn ogystal â nifer o eitemau bwyd gan nad oedd oergell arall ar gael. Fodd bynnag, roedd y cyffur dan sylw'n cael ei gadw mewn blwch plastig caled dan sêl.

O arsylwi'n uniongyrchol y broses a weithredir yn ymwneud â glanhau a sterileiddio offer (a elwir yn ddadheintio fel arall), gwelwyd y gweithredir dull sefydledig a thrylwyr yn y ddeintyddfa o ran yr agwedd hon ar y ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd cofnodion manwl yn ategu'r holl broses ddadheintio. Gwelwyd bod aelod o'r tîm nyrsio deintyddol wedi'i neilltuo i weithio yn yr ystafell ddadheintio bob dydd er mwyn sicrhau bod offer yn symud i mewn ac allan o bob deintyddfa yn ddidrafferth. Yn ogystal,

gwelwyd bod trefniadau addas wedi eu sefydlu i sicrhau bod archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd o ran gweithredu'r cyfarpar yn yr ystafell ddadheintio yn effeithiol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod yr offer a ddefnyddir tua diwedd pob diwrnod gwaith yn cael eu mwydo a'u cadw ar wahân wrth baratoi at ddadheintio y bore canlynol. Gwelwyd y nodwyd y dyddiad ar yr offer a'u bod yn cael eu rhoi mewn bagiau i gadw wrth baratoi i'w hailddefnyddio yn syth ar ôl eu sterileiddio.

O archwilio'r cofnodion cynnal a chadw, cafwyd cadarnhad bod contract parhaus wedi'i sefydlu yn y ddeintyddfa i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, ystyriwyd pa un a oedd y cyfleusterau clinigol oedd ar gael yn y practis yn cydymffurfio â safonau cyfredol y gwasanaethau iechyd yng Nghymru.[6]. Cadarnhaodd ein harsylwadau fod y cyfleusterau o ansawdd da iawn; roedd pob deintyddfa (man triniaeth i gleifion) yn olau, gyda digon o le a chyfarpar ynddi, ac wedi'i chyflenwi'n dda.

[6]http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/standards-for-health-services-in-wales-s. Caiff y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru eu hategu gan ganllawiau ategol.Ceir canllawiau penodol ar bob safon unigol (1 – 26) o fewn y ddogfen hon.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae'r ddeintyddfa wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan reolwr practis a phrif ddeintydd profiadol. Roedd y practis wedi sefydlu systemau rheoli a phrosesau priodol i sicrhau diogelwch cleifion**

Deintyddfa annibynnol sefydledig yw Deintyddfa Rumney Hill a agorwyd gan y prif ddeintydd a'i wraig ym 1979. Mae'r ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda gan reolwr practis profiadol a hir sefydlog.

Mae Deintyddfa Rumney Hill yn ddeintyddfa sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso, sy'n dilyn hyfforddiant blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl graddio o brifysgol), dan oruchwyliaeth hyfforddwr a bennwyd. Mae'r prif ddeintydd yn dysgu fel tiwtor deintyddol yn Ysgol Deintyddiaeth Caerdydd hefyd. Yn ogystal, mae ganddo brofiad o fentora oherwydd ei waith fel ymgynghorydd lleol, gan gynorthwyo deintyddion o ran materion yn ymwneud â diogelu dannedd (er enghraifft, rhoi cyfarwyddiadau a chefnogaeth i ddeintyddion ynglŷn â materion deintyddol/cyfreithiol).

Fe'n hysbyswyd bod y ddeintyddfa wedi cyflawni'r dyfarniad "Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain" a'u bod yn aelodau dyfarniad aur o'r cynllun. Mae'r cynllun llywodraethu clinigol a ddilyswyd yn cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu/sicrwydd ansawdd yn ymwneud â phractisau deintyddol. Dywedwyd wrthym hefyd bod y ddeintyddfa wedi llunio llawlyfr practis pwrpasol sy'n cwmpasu pob agwedd ar lywodraethu Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ac fe'i defnyddir er mwyn cyfeirio ato ac fel dull hyfforddi staff.

Roedd y prif ddeintydd yn cymryd rhan weithredol o ran rhedeg a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd ac roedd yn gweithio'n agos â rheolwr y practis. Roedd ystod o systemau rheoli a phrosesau wedi eu sefydlu i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i gleifion. Er enghraifft, gwelwyd tystiolaeth o archwiliadau (gwiriadau) atal a rheoli heintiau/dadheintio wedi eu cwblhau. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag croes-heintio.

O drafod â'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol, gwelwyd bod lefelau trosiant a salwch/absenoldebau staff yn isel iawn. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol sy'n gyfarwydd iddynt.

Mae'r practis yn defnyddio nyrsys deintyddol o asiantaeth weithiau pan nad yw eu staff rheolaidd ar gael. Siaradwyd â'r prif ddeintydd am y trefniadau a weithredir ar gyfer sicrhau bod y nyrsys asiantaeth yn gymwys. Dywedwyd wrthym fod y practis bob amser yn ceisio sicrwydd ar lafar ynglŷn ag

addasrwydd nyrsys o asiantaeth ac yr oeddem yn credu bod y wybodaeth hon yn ddibynadwy. Fodd bynnag, argymhellwyd bod y practis hefyd yn gofyn am gofnod ysgrifenedig o'r cymwysterau a'r hyfforddiant a gwblhawyd pan eu bod yn defnyddio nyrsys asiantaeth yn y dyfodol, er mwyn sicrhau addasrwydd staff asiantaeth.

Gwelwyd bod rhaglen hyfforddi briodol wedi'i sefydlu i sicrhau bod staff newydd a staff asiantaeth yn cael hyfforddiant sefydlu effeithiol yn y ddeintyddfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff a hyfforddwyd yn iawn.

Dywedodd y staff y siaradwyd â hwy eu bod yn fodlon ar eu swyddogaethau yn y ddeintyddfa, a bod yr holl dîm yn cydweithio'n dda. Roedd strwythur rheoli pendant wedi'i sefydlu, a oedd yn golygu bod y staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn cynorthwyo'i gilydd fel tîm. Dywedodd un nyrs wrthym eu bod yn cael cefnogaeth y practis i gwblhau cymhwyster radioleg deintyddol (pelydr-x) er mwyn ehangu eu sgiliau.

Dywedwyd y cynhelir cyfarfodydd staff bob tua dau i dri mis. Cynhelir cyfarfodydd ar wahân i ddeintyddion drafod darparu triniaethau i gleifion y GIG trwy Unedau Gweithgarwch Deintyddol [7], a amlinellir gan y bwrdd iechyd lleol. Roedd pob gwaith tebyg wedi'i wneud yn amserol hyd yn hyn, a chadarnhaodd y prif ddeintydd hyn. Cadarnhawyd yn ystod sgyrsiau â'r staff y trafodir unrhyw bryderon sydd angen sylw yn ymwneud â'r ddarpariaeth o ofal a thriniaeth i gleifion yn ystod cyfarfodydd staff a gwneir gwelliannau yn unol â hynny.

Edrychwyd ar bedair ffeil datblygiad proffesiynol parhaus a gwelwyd bod pob aelod o'r staff dan sylw wedi derbyn gwerthusiad blynyddol o'u gwaith, a oedd yn cynorthwyo'r broses o nodi amcanion ac anghenion hyfforddiant ar gyfer y dyfodol. Datgelodd sgyrsiau â'r staff fod dilyn hyfforddiant yn cael ei annog yn y practis, yn ogystal â mynychu digwyddiadau perthnasol Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i gynorthwyo eu dealltwriaeth o arferion da a newidiadau mewn deintyddiaeth ymhellach. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â sgiliau perthnasol ac a oedd wedi diweddaru eu hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau ar amddiffyn plant. Gwelwyd yn y cofnodion staff bod y staff wedi dilyn

---

[7] Caiff deintyddion y GIG yng Nghymru eu talu yn ôl faint o Unedau Gweithgarwch Deintyddol a gwblheir mewn blwyddyn, a nodir y nifer gan y bwrdd iechyd lleol. Caiff pob gweithdrefn ddeintyddol ei dosbarthu i fand sy'n pennu faint mae cleifion yn ei dalu a faint o Unedau Gweithgarwch Deintyddol gaiff y deintydd.

hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed hefyd. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan y tîm deintyddol ynglŷn â diogelu oedolion neu blant yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Dywedodd y prif ddeintydd fod y staff wedi cael cymorth adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gael y brechiadau yr oedd eu hangen arnynt i weithio yn y practis. Gwelwyd tystiolaeth o roi brechiadau hepatitis B a chofnodion imiwnedd yn y ffeiliau staff. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion.

Roedd y ddeintyddfa'n cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu anafiadau i staff a chleifion mewn llyfr damweiniau, ac roedd y fformat a'r cynnwys yn cyd-fynd â Deddf Diogelu Data 1988. Gwelwyd hefyd eu bod wedi cymryd camau gweithredu priodol ym mhob achos.

Gwelwyd amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Felly, roeddem yn gallu cadarnhau bod trefniadau addas wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio yn unol â'r gofynion rheoliadol, fel bod cleifion yn gallu cael eu trin yn ddiogel.

Roedd polisi cwynion wedi'i sefydlu yn y ddeintyddfa a oedd yn cyd-fynd â phroses gwyno'r GIG o'r enw 'Gweithio i Wella'.[8]Fodd bynnag, nid oedd y polisi cwynion yn fanwl ynglŷn â phroses y GIG a byddai'n elwa ar gynnwys hyn. Gwelwyd bod cleifion wedi gwneud dwy gŵyn yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cafodd un gŵyn ei datrys o fewn yr amserlen a nodir yn 'Gweithio i Wella'.Bu oedi gyda'r ail gŵyn gan fod y practis angen ceisio cyngor cyfreithiol. Roedd trywyddau archwilio pendant yn cofnodi'r cyfathrebu ar gyfer y ddau glaf dan sylw. Gwelwyd tystiolaeth bod y ddwy gŵyn wedi'u hunioni at fodd y cleifion dan sylw.

Roedd arwydd bychan ar y wal ger desg y dderbynfa a oedd yn nodi manylion pwy y gallai cleifion gysylltu â nhw i wneud cwyn a threfniadau cwyno y GIG. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bosteri yn unrhyw un o'r ystafelloedd aros i hysbysu cleifion ynglŷn â'r broses gwyno. Dywedodd saith o'r 15 claf a gwblhaodd holiaduron AGIC nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn/codi

[8]Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig i gleifion y GIG ar gyfer codi pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt a dysgu oddi wrthynt.Mae pryderon yn faterion a nodir yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac o ran cyrff GIG Cymru, honiadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan gorff sy'n gyfrifol yng Nghymru.

pryder. Felly, dylai’r practis ystyried ffordd well o arddangos manylion y broses gwyno i gleifion.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa sicrhau bod manylion y broses gwyno yn cael eu harddangos mewn lle mwy amlwg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u gofal neu driniaeth ddeintyddol.***

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd y ddeintyddfa'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda, gan ddarparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Gwelwyd hefyd bod y safle'n lân ac yn hylan drwyddo draw.**

Mae Deintyddfa Rumney Hill yn darparu gwasanaethau mewn tŷ sydd wedi'i addasu ar brif heol yn ardal siopa Tredelerch yng Nghaerdydd. Roedd enwau a chymwysterau’r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi eu harddangos ar arwydd y tu allan i'r adeilad.

Gwelwyd bod mynediad i'r adeilad a'r deintyddfeydd ar y llawr daear yn addas i unigolion ag anawsterau symudedd, gan nad oedd grisiau i'r practis, nac ar y llawr daear. Fodd bynnag, roedd y drysau o faint safonol ac mae'n bosib na fyddent yn addas i gadeiriau olwyn mwy o faint. Cadarnhaodd sgwrs â deintydd eu bod yn gallu darparu gwasanaethau i gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Nid oedd lleoedd parcio penodol ar gael yn safle'r practis, ond roedd lleoedd parcio ar gael ar hyd y brif heol ac ar strydoedd preswyl gerllaw. Mae'r ddeintyddfa wedi'i lleoli y tu allan i safle bws a cheir lôn fach yn arwain ati. Dywedodd staff wrthym y defnyddir y lôn fach weithiau fel lle parcio anabl i gleifion trwy drefniant ymlaen llaw.

Roedd taith o gwmpas yr adeilad yn cadarnhau bod y ddeintyddfa'n lân, yn daclus ac yn cael ei chynnal a’i chadw'n dda, a bod golau, gwresogyddion ac awyriadau addas yno. Mae'r adeilad yn cynnwys pedair deintyddfa cleifion sydd wedi eu rhannu rhwng y llawr daear a'r llawr cyntaf yn yr adeilad.

Roedd y prif ddeintydd hefyd wedi buddsoddi mewn ystafell ddadheintio benodol ar y llawr daear ar gyfer glanhau offer i ffwrdd o fannau lle mae cleifion. Mae'r dderbynfa wedi'i lleoli ar y llawr daear, yn union i'r chwith o'r drws ffrynt.

Roedd yr ystafelloedd aros ar y llawr daear ac i fyny'r grisiau o faint priodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Gwelwyd y defnyddir yr hysbysfyrddau cleifion yn y ddwy ystafell aros yn effeithiol iawn i arddangos gwybodaeth am hybu iechyd yn glir. Gwelwyd yn ystod sgwrs â hylenydd deintyddol y practis bod y tîm deintyddol yn rhoi pwyslais mawr ar godi ymwybyddiaeth cleifion o faterion iechyd perthnasol. Darparwyd enghreifftiau penodol o'r llwyddiannau a gyflawnwyd gan y tîm o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd i rai cleifion roi'r gorau i ysmygu.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd hysbysfwrdd wedi'i osod yn ymwneud a chanser y geg a oedd yn darparu gwybodaeth a chyngor i gleifion. Dywedwyd wrthym hefyd yr arddangosir gwahanol thema hybu iechyd bob mis. Gwelwyd ffolder o bosteri atal a rheoli heintiau o'r mis blaenorol a oedd yn disgrifio'r

prosesau glanhau a diheintio a weithredir yn y practis er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hamddiffyn. Roedd y posteri'n cynnwys lluniau o sut y mae'r staff yn cyflawni'r elfen hon o'u gwaith yn ffisegol er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall y broses. Mae hyn yn golygu y rhoddir gwybodaeth am iechyd i gleifion sy'n gyfredol ac yn berthnasol iddynt. Roedd ystod o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa hefyd, wrth ymyl rhestri prisiau triniaethau y GIG a phreifat.

Arddangoswyd posteri iechyd a diogelwch a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn y ddeintyddfa, ond nid mewn mannau hawdd i'w gweld i gleifion. Dylai'r tîm deintyddol ystyried sicrhau bod y wybodaeth hon yn haws i gleifion ei gweld.

Ceir toiled staff a thoiled cleifion neillryw ar wahân wedi eu lleoli ar y llawr cyntaf yn y ddeintyddfa. Roedd y ddau doiled yn lân a hylan, ac roedd cyfleusterau golchi dwylo addas ar gael i atal croes-heintio. Nid oedd arwyddion ar gyfer toiled y cleifion o'r coridorau nac o'r ystafelloedd aros. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai cleifion llai cyfarwydd â'r practis yn gallu dod o hyd i'r toiled yn rhwydd.

Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân a chafodd y diffoddwyr tân ar y ddau lawr eu harchwilio'n ddiweddar.

Gwelwyd y cedwir cofnodion cleifion yn ddiogel yn y ddeintyddfa. Cedwir cofnodion papur mewn cypyrddau ffeilio dan glo y tu ôl i'r cownter yn y dderbynfa a chaiff cofnodion electronig eu hategu bob dydd ar weinydd ar wahân yn y dderbynfa. Roedd larwm diogelwch a chloeon ffenestri wedi eu gosod yn y safle er mwyn atal mynediad heb ei awdurdodi i'r safle.

## Camau nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflawni Safonau gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y rhoddir sylw i'r canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Rumney Hill, gan gynnwys amserlenni.

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Rumney Hill

## Dyddiad yr Arolygiad: 20 Tachwedd 2014

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| Tudalen 9 | Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod hanesion meddygol newydd a diweddaredig cleifion yn cael eu llofnodi gan y deintydd a'r claf bob amser. | Roedd yn braf gweld bod pob hanes meddygol wedi'i gwblhau a'i ddiweddaru a dim ond tynhau'r broses o sicrhau bod rhai gweithdrefnau gweinyddol yn cael eu cwblhau sydd ei angen. Tynnwyd sylw'r staff i gyd at hyn a byddwn yn sicrhau cydymffurfiad yn y dyfodol pan fyddwn yn cynnal ein harchwiliadau cadw cofnod manwl blynyddol ym mis Ionawr 2015. | P.Bartley | Gweithredu ar unwaith a chynnal adolygiad archwilio erbyn 31 Ionawr 2015 |
| Tudalen | Hysbyswyd bod angen i'r ddeintyddfa | Rydym yn croesawu'r adroddiad sy'n nodi'r mater | P.Bartley | 31 Ionawr |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 10 | ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion sy'n dioddef o afiechyd periodontal yn derbyn gofal a thriniaeth yn unol â'r canllawiau cenedlaethol presennol. | o reoli afiechyd periodontal ac mae ein harchwiliadau parhaus yn dangos ein bod yn gwneud gwaith da. Fodd bynnag, efallai bod rhai gwendidau y gellid rhoi sylw iddynt. Mae'r mater hwn wedi'i godi eisoes gyda'r clinigwyr a byddwn yn trafod hyn ymhellach yn ystod ein cyfarfod deintyddion nesaf ym mis Ionawr 2015. Byddwn yn adolygu'r argymhellion arferion gorau presennol. Unwaith eto, byddwn yn gallu tynnu sylw at unrhyw faterion a godwyd o'n harchwiliadau mis Ionawr. | | 2015 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 15 | Mae'n ofynnol i'r ddeintyddfa sicrhau bod manylion y broses gwyno wedi eu harddangos mewn lle mwy amlwg. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u gofal neu driniaeth ddeintyddol. | Rydym yn falch o gynnwys arwyddion yn ein hystafelloedd aros ac mae hyn eisoes wedi'i wneud.<br>Bydd hyn yn ychwanegol at yr arwydd a arddangosir eisoes yn y brif dderbynfa; y daflen wybodaeth i gleifion a'n gwefan. | R.Horsell | Wedi'i wneud eisoes. |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Dim | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):..........PAUL BARTLEY.................................................................................**

**Teitl: ...PERCHENNOG Y PRACTIS......................................................**

**Llofnod:.......................................................................................**

**Dyddiad: .........23 Rhagfyr 2014................................................**